**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED**
**LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd am 7:30 pm ar nos Fawrth, 9fed Ebrill 2019 yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon.**

Yn bresennol:
Cadeirydd: y Cynghorydd Bryan Tomlins; y Cynghorwyr Jim Hughes, Lowri Jones, Lodwick Lloyd Gwenno Piette ac Aled Roberts.
Y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards

**318 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Sheila Davies, Dennis Morgan a Phil Tomlins fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**319 Maes Parcio'r Morfa**

**a) Cymryd rheolaeth o'r maes parcio**
Cafwyd cadarnrhad, mewn ebost ar 8 Ebrill 2019, gan Adran Dir y Cyngor Sir nad oedd ganddynt gofnod mai nhw oedd yn berchen ar y tir dan sylw. Felly, **PENDERFYNWYD**, os byddai'r Cyngor Cymuned am wella'r ardal er budd y gymuned, y byddem yn bwrw ymlaen i wneud hynny ac yn talu'r gost o'r gyllideb .

**b) Tynnu'r cerrig o'r maes parcio**
Nid oedd neb yn ffafrio'r opsiwn gwreiddiol a gynigwyd, sef derbyn y dyfynbris o £1,500 i wneud y gwaith clirio.
Ar ôl trafod pa waith yr oedd angen ei wneud, **PENDERFYNWYD** derbyn yr ail ddyfynbris - gan Gwyndaf Jenkins - a fyddai'n gwneud y gwaith mewn un diwrnod llawn am rhwng £500 a £600.
Byddai Mr Jenkins yn cwblhau'r gwaith ddydd Llun neu Mawrth yr wythnos ganlynol, ac yn clirio'r cerrig yn ôl heibio'r bwi achub ac mewn llinell â'r banc.
Cytunodd y Cynghorydd Aled Roberts i

**Minutes of a meeting of the Council held at 7:30 pm on Tuesday, 9th April 2019 at the Reading Room, Llanon.**

Present:
Chairman: Councillor Bryan Tomlins;
Councillors Jim Hughes, Lowri Jones, Lodwick Lloyd, Gwenno Piette and Aled Roberts.
County Councillor Dafydd Edwards

**318 Apologies**
Councillors Sheila Davies, Dennis Morgan and Phil Tomlins apologised for their inability to attend the meeting.

**319 Morfa Car Park**

**a) Taking control of the car park**
Confirmation had been received by way of an e-mail dated 8 April from the County Council Estates Department that they had no record that they owned the land in question. Therefore, it was **RESOLVED**, should the Community Council wish to improve the area for the benefit of the community, to proceed to do that and meet the cost from its budget.

**b) Removing the stones from the car park**
No one favoured the original option which had been offered, namely to accept the quotation of £1,500 to undertake the clearing work.
Following consideration of the work required, it was RESOLVED to accept the second quotation – submitted by Gwyndaf Jenkins – who would undertake the work in one full day for between £500 and £600.
Mr Jenkins would undertake the work on either the Monday or Tuesday of the following week and clear the stones beyond the lifebuoy and in line with the bank.
Councillor Aled Roberts agreed to

gysylltu â mr Jenkins i gadarnhau'r gwaith ac i holi iddo anfon dyfynbris ysgrifenedig at y Clerc.

contact Mr Jenkins in order to confirm the work and to request him to submit a written quotation to the Clerk.

Daeth y cyfarfod i ben am 7:45 p.m.

The meeting concluded at 7:45 p.m.